

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

TAKEOVER DAY
FACT SHEETS

DIWRNOD MEDDIANNU
TAFLENNI FFEITHIAU'R

2016

WEB www.kidsinmuseums.org.uk EMAIL takeoverday@kidsinmuseums.org.uk TEL 020 3096 7707

TAKEOVER DAY FACT SHEETS
TAFLENNI FFEITHIAU'R DIWRNOD MEDDIANNU

Welcome to our Takeover Day Fact Sheets pack.
We have combined our Takeover Day resources into one handy pack to provide ideas and to help you plan your Takeover Day event.

Croeso i'n pecyn o Daflenni Ffeithiau Diwrnod Meddiannu.
Rydym wedi cyfuno ein adnoddau Diwrnod Meddiannu i greu un pecyn defnyddiol i roi syniadau i chi ac i'ch helpu i gynllunio eich Diwrnod Meddiannu.

- Seven reasons to do Takeover Day | Saith rheswm i gynnal y Diwrnod Meddiannu
- All you need to know about Takeover Day | Y cwbl sydd angen i chi ei wybod am y Diwrnod Meddiannu
- So where do we find children and young people? | Lle gawn ni hyd i blant a phobl ifanc?
- Schools, youth groups and other young people's organisations | Ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau eraill bobl ifanc
- How can we welcome visitors if our museum is closed? | Sut allwn ni groesawu ymwelwr os yw ein amgueddfa ar gau?
- How can we involve young people with heritage outdoors? | Sut allwn ni gynnwys pobl ifanc mewn treftadaeth awyr agored?
- How can Takeover Day activities be used for Arts Award? | Sut allwn ni ddefnyddio gweithgareddau'r Diwrnod Meddiannu ar gyfer yr Arts Award?
- How to set up a youth panel – ten top tips | Sut i sefydlu panel ieuenctid – y deg awgrym gorau
- Takeover Day and Communities First Clusters | Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a'r Diwrnod Meddiannu
- How can teenagers takeover our Twitter feed? | Sut allai pobl yn eu harddegau feddiannu'r porthiant Trydar?
- TweetSheet | TaflenniTrydar
- Press tips | Awgrymiadau am y wasg
- Evaluation tips | Awgrymiadau am werthuso

Did you find this useful? Why not download our handy Takeover Day Case Studies pack? For all additional resources, or if you would like to download our fact sheets individually, please visit our website

A gawsoch chi hwn yn ddefnyddiol? Beth am lawrlwytho ein pecyn defnyddiol o Astudiaethau Achos Diwrnod Meddiannu? I gael yr holl adnoddau ychwanegol, neu os hoffech lawrlwytho ein taflenni ffeithiau'n unigol, ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Seven reasons to do Takeover Day
Saith rheswm i wneud y Diwrnod Meddiannu

Takeover Day is an annual day on which museums, galleries, libraries, archives, arts and heritage organisations invite young people in and give them a meaningful role. Children make decisions and get involved in the life of the organisation. Whether you're a 14th century castle, an arts organisation, a library or a historic ship, it's a day to come up with new ideas and let young people contribute.

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n ddiwrnod blynyddol pan fydd amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifau a sefydliadau celfyddydau a threftadaeth yn gwahodd pobl ifanc i mewn ac yn rhoi rôl ystyrlon iddynt. Mae plant yn gwneud penderfyniadau ac yn cymryd rhan ym mywyd y sefydliad. P'un a'i ydych yn gastell o'r 14eg ganrif, yn sefydliad celfyddydau, yn llyfrgell neu'n llong hanesyddol, mae'n ddiwrnod i feddwl am syniadau newydd a gadael i bobl ifanc gyfrannu.

1 Understand young people

It gives an opportunity to try out new ways of working with children. Venues say it has given them a better understanding of young people's needs and interests. (For all the benefits, download our Takeover Day reports from the website.)

2 Enthuse your team

It's a great way to bring staff and departments together. Half of participating organisations say internal awareness and appreciation of their work with young people has grown as a result of Takeover Day. It brings excitement and enjoyment to colleagues who are not normally involved with children and teenagers.

3 Build your profile

It causes a thrill locally, from the large amounts of media coverage to the word on the community grapevine. Let us know what your plans are and we will help share them.

4 Work together with the community

It helps create and strengthen partnerships, and often forms new and unexpected ones. Takeover Day is perfect for working with schools, youth groups, Scouts and faith groups. Ask people in your community what they want from you and you'll become a special place for them. Working in Communities First clusters, Takeover Day can help tackle disadvantage and enrich children's lives through culture.

1 Deall pobl ifanc

Mae'n gyfle i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio gyda phlant. Mae lleoliadau'n dweud bod y diwrnod wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o anghenion a diddordebau pobl ifanc. (I weld yr holl fanteision, lawrlwythwch ein adroddiadau Diwrnod Meddiannu o'n gwefan.)

2 Ennyn brwdfrydedd eich tîm

Mae'n ffordd wych o ddod â staff ac adrannau ynghyd. Mae hanner y sefydliadau sy'n cyfranogi'n dweud bod ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad mewnol o'u gwaith gyda phobl ifanc wedi tyfu diolch i'r Diwrnod Meddiannu. Mae'n dod â mwynhad a chyffro i gydweithwyr nad ydynt fel arfer yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

3 Adeiladu eich proffil

Mae'n creu cyffro yn lleol, o'r sylw mawr yn y cyfryngau i'r sgwrsio o fewn y gymuned. Rhowch wybod i ni beth yw eich cynlluniau, ac fe awn ati i'ch helpu i roi gwybod i bobl.

4 Gweithio gyda'r gymuned

Mae'n helpu i greu a chryfhau partneriaethau, ac yn aml yn ffurfio rhai newydd ac annisgwyl. Mae'r Diwrnod Meddiannu'n berffaith ar gyfer gweithio gydag ysgolion, grwpiau ieuenctid, Sgowtiaid a grwpiau ffydd. Gofynnwch i bobl yn eich cymuned beth maen nhw ei eisiau gennych chi ac fe ddewch yn lle arbennig iddyn nhw. Trwy weithio mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, mae'r Diwrnod Meddiannu'n gallu helpu i ymdrin ag anfanteision a chyfoethogi bywydau plant drwy ddiwylliant.

...

5 You can make it your own

Takeover Day is entirely flexible. You can work with one child or 100, seven year olds or twenty-one year olds. The programme for the day is up to you and your young people. Whether you're a large or small venue, staff or volunteer-run, open or closed, you choose how to get involved.

6 Make young people a part of your organisation

It can be a springboard for young people's continued involvement, from setting up a youth panel to recruiting volunteers. Children come back with family and friends to show what they've achieved. Others create resources that can be accessed by even more young people and families – and global audiences through the internet. It has a wide and lasting impact.

7 Kids in Museums can help

We have loads of information and guidance available through our website to help make your day a big success, from press release templates to inspirational case studies. We have 'We're Taking Over' materials for your young people. All the resources are free. We also have a Takeover Day team to help with particular issues, listen to your ideas or work with you to create a programme for the day.

5 Bod yn unigryw

Mae Diwrnod Meddiannu'n gwbl hyblyg. Gallwch weithio gydag un plentyn neu 100 o blant, rhai saith mlwydd oed neu bobl ifanc sy'n un ar hugain. Chi a'ch plant a phobl ifanc sy'n gyfrifol am lunio rhaglen y dydd. P'un a'i ydych chi'n atyniad mawr neu fach, yn atyniad sy'n cael ei redeg gan staff neu wirfoddolwyr, ar agor neu ar gau, chi fydd yn dewis sut i gymryd rhan.

6 Gwneud plant a phobl ifanc yn rhan o'ch amgueddfa

Gall fod yn fan cychwyn i ennyn cyfranogaeth barhaus gan bobl ifanc, o sefydlu panel ieuenctid i ddod yn recriwtio gwirfoddolwyr. Mae plant yn dychwelyd gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau i ddangos beth maen nhw wedi'i gyflawni. Gall eraill greu adnoddau y bydd hyd yn oed fwy o bobl ifanc a theuluoedd yn gallu eu defnyddio – a denu cynulleidfaoedd byd-eang ar y we. Mae'r diwrnod yn cael effaith eang sy'n para.

7 Cymorth gan Kids in Museums

Mae gennym lwyth o wybodaeth a chanllawiau ar ein gwefan i sicrhau bod eich diwrnod yn llwyddiant mawr, o dempledi datganiadau i'r wasg i astudiaethau achos sy'n ysbrydoli. Mae gennym ddeunyddiau 'Rydym yn Meddiannu' i bobl ifanc. Mae'r adnoddau i gyd yn rhad ac am ddim. Mae gennym hefyd dîm Diwrnod Meddiannu i'ch cynorthwyo gyda materion penodol, i wrando ar eich syniadau neu i weithio gyda chi i greu rhaglen ar gyfer y diwrnod.

For more information go to:
www.kidsinmuseums.org.uk/takeoverdaywales

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:
www.kidsinmuseums.org.uk/diwrnodmeddiannu

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

All you need to know about Takeover Day
Y cwbl sydd angen i chi ei wybod am y Diwrnod Meddiannu

What is Takeover Day?

Takeover Day is an annual day on which museums, galleries, libraries, archives, arts and heritage organisations invite young people in and give them a meaningful role. You can involve one child or one hundred children. It's a day to come up with new ideas and empower them to contribute creatively to your work.

Where can we find children and young people to take part?

- **They're everywhere!** Look inside your museum. You are probably already working with children and young people that could get involved.
- Do school groups visit your venue? Why not invite them to step into a decision-making role on that day.
- Put up a poster in your museum to recruit children and young people or use social and local media.
- Contact organisations such as schools, youth services and other groups. For a full list of organisations to contact see our fact sheet 'So where do we find children and young people?'
- Ask staff and volunteers in your museum – many of them will work with children and young people and may be able to help.

How can Kids in Museums help?

- **Downloadable resources** from our website, including fact sheets and press release templates and case studies.
- We can also send you **free special packs** with certificates and stickers for the children and young people taking part as well as posters to put up in your museum on Takeover Day.
- **Expertise, advice and support** to make your Takeover Day a huge success. Just email your questions to takeoverday@kidsinmuseums.org.uk and one of our team will get back in touch.

...

Beth yw Diwrnod Meddiannu?

Mae Diwrnod Meddiannu'n ddiwrnod blynyddol pan fydd amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifau a sefydliadau celfyddydau a threftadaeth yn gwahodd pobl ifanc i mewn ac yn rhoi rôl ystyrlon iddynt. Gallwch gynnwys un plentyn neu gant o blant. Mae'n ddiwrnod i feddwl am syniadau newydd a'u hannog i gyfrannu'n greadigol at eich gwaith.

Ble gallwn ni ddod o hyd i blant a phobl ifanc i gymryd rhan?

- **Ym mhob man!** Edrychwch yn eich amgueddfa. Efallai eich bod chi eisoes yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a allai gymryd rhan.
- A yw grwpiau ysgol yn ymweld â'ch safle? Beth am wahodd yr ysgolion i wneud rôl ar ddiwrnod yr ymweliad sy'n gofyn iddynt gwneud penderfyniadau?
- Gosodwch boster yn eich amgueddfa i recriwtio plant a phobl ifanc neu defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol neu'r cyfryngau lleol.
- Cysylltwch â sefydliadau megis ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a grwpiau eraill. I weld rhestr lawn o fudiadau i gysylltu â nhw, gwelwch ein taflen ffeithiau 'Ymhle byddwn ni'n canfod plant a phobl ifanc?'
- Gofynnwch i staff a gwirfoddolwyr eich amgueddfa – bydd nifer ohonynt yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac o bosib yn gallu helpu.

Sut gall Kids in Museums gynorthwyo?

- **Mae adnoddau i'w lawrlwytho** ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys taflenni gwybodaeth, templedi datganiadau i'r wasg ac astudiaethau achos.
- Gallwn hefyd anfon **pecynnau arbennig** atoch gyda thystysgrifau a sticeri i'r plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan, yn ogystal â phosteri i roi yn eich amgueddfa ar Ddiwrnod Meddiannu, yn rhad ac am ddim.
- **Arbenigedd, cyngor a chefnogaeth** i sicrhau bod eich Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn llwyddiant ysgubol. E-bostiwch eich cwestiynau at takeoverday@kidsinmuseums.org.uk a bydd un o'n tîm yn cysylltu â chi.

- **Publicity** – Keep in touch about your event and we can tweet about it, send a volunteer to help with your event and use your event as a case study.

Six simple ways to take part in Takeover Day

1. Ask the children and young people themselves what they want to do. They'll have loads of suggestions.

2. Do a 'Be a Director for the Day' and appoint a child or young person to the post. Ask children and young people to take on a role at the museum including front of house, retail, operations or curators.

3. Need to get an event or activity organised? Ask the children and young people to plan and deliver it.

4. Ask for their thoughts and input on your website, activities, family trails and exhibitions. It's a great way to gather new ideas.

5. Get young people to take over your Twitter stream, write a blog or press release and help with your marketing and publicity.

6. Need a fresh perspective? Get the children and young people to look at a tricky issue in your museum.

For loads more examples see our in depth Case Studies at: www.kidsinmuseums.org.uk/takeoverdaywales

- **Cyhoeddusrwydd** – Cadwch mewn cysylltiad ynglyn â'ch digwyddiad a gallwn drydar amdano, anfonwch wirfoddolwr i helpu gyda'ch digwyddiad a defnyddiwch eich digwyddiad fel astudiaeth achos.

Chwe ffordd syml o gymryd rhan yn y Diwrnod Meddiannu

1. Gofynnwch i'r plant a phobl ifanc beth maent eisiau ei wneud. Bydd ganddynt lwyth o awgrymiadau.

2. Trefnwch ddigwyddiad 'Bydda'n Gyfarwyddwr am Ddiwrnod' a phenodi plentyn neu berson ifanc i'r swydd. Gofynnwch i blant a phobl ifanc ymgymryd â rôl yn yr amgueddfa gan gynnwys rôl yn y dderbynfa, gwerthu nwyddau yn y siop, neu gallent ymgymryd â rôl weithredol neu guradu.

3. Ydych chi angen trefnu digwyddiad neu weithgaredd? Gofynnwch i'r plant a phobl ifanc ei gynllunio a'i redeg.

4. Gofynnwch am eu barn a'u sylwadau am eich gwefan, gweithgareddau, llwybrau i deuluoedd ac arddangosfeydd. Mae'n ffordd wych o feddwl am syniadau newydd.

5. Gadewch i blant a phobl ifanc ddefnyddio eich cyfrif Trydar, ysgrifennu blog neu ddatganiad i'r wasg a chynorthwyo gyda'ch gwaith marchnata a chyhoeddusrwydd.

6. Ydych chi angen safbwynt newydd? Gofynnwch i'r plant a phobl ifanc edrych ar fater anodd yn eich amgueddfa.

I weld llwyth o esiamplau eraill, gwelwch ein Astudiaethau Achos manwl ar: www.kidsinmuseums.org.uk/diwrnodmeddiannu

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

So where do we find children and young people?
Lle gawn ni hyd i blant a phobl ifanc?

Schools

- If your museum already works with a local school talk to the contact teacher
- A member of staff or volunteer probably has personal links with a local school through their children, grandchildren or being a governor for example
- To find your local schools see: My Local School

Primary schools (ages 4-11)

- Contact a class teacher who is familiar with your museum
- Send a letter or email to the Head
- Use the local authority bulletin or newsletter to invite schools
- The Children's Commissioner for Wales runs a Super Ambassadors scheme for primary schools. Every local authority in Wales now has at least one ambassador school. For further information: visit Children's Commissioner for Wales and Super Ambassadors

Secondary Schools (ages 11-16/18) and FE Colleges (16+)

- Contact the Head of a specific subject department e.g. Engineering, Art, Business Studies, Leisure & Tourism. To find out which subjects a school or college offers take a look around their website for a prospectus, subject or staff list.
- Check the school's website and the local press to find out what your local school is interested in or planning and approach them about working together. Schools will be keen on opportunities linked to their current or future interests e.g. an important anniversary, a project to improve particular pupil skills.
- Other staff to approach in the school:
  Head of Year, Head of Key Stage
  More able and talented School's Co-ordinator
  Welsh Baccalaureate Co-ordinator
  Arts Award Co-ordinator
  Work Experience, Work-Related Learning or Enterprise Co-ordinator
  Youth council or Pupil Voice Co-ordinator
  Duke of Edinburgh Co-ordinator
  Inclusion Co-ordinator, Support & Guidance Co-ordinator
  Extended Services, Community or Outreach Co-ordinator

Ysgolion

- Os yw eich amgueddfa'n gweithio gydag ysgolion lleol yn barod, siaradwch gyda'r athro cyswllt
- Mae'n debyg bod gan aelod o staff neu wirfoddolwr gysylltiadau personol gydag ysgol leol drwy eu plant, eu hwyrion neu drwy fod yn lywodraethwr, er enghraifft
- I ganfod eich ysgolion lleol gwelwch: Fy Ysgol Leol

Ysgolion cynradd (4-11 oed)

- Cysylltwch ag athro dosbarth sy'n gyfarwydd â'ch amgueddfa
- Anfonwch lythyr neu e-bost at y Pennaeth
- Defnyddiwch daflen newyddion neu fwletin yr awdurdod lleol i wahodd ysgolion
- Mae Comisiynydd Plant Cymru'n rhedeg cynllun Llysgenhadon Gwych i ysgolion cynradd. Erbyn hyn mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru o leiaf un ysgol llysgennad. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: Comisiynydd Plant Cymru a Llysgenhadon Gwych

Ysgolion Uwchradd (11-16/18 oed) a Cholegau AB (16+)

- Cysylltwch â Phennaeth adran pwnc penodol e.e. Peirianneg, Celf, Astudiaethau Busnes, Hamdden a Thwristiaeth. I ganfod pa bynciau mae ysgol neu goleg yn eu cynnig edrychwch o amgylch eu gwefan i weld prosbectws, rhestr pynciau neu restr staff.
- Gwiriwch wefan yr ysgol a'r wasg leol i ganfod mewn pa bethau mae gan eich ysgol ddiddordeb neu beth yw eu cynlluniau a gofynnwch iddynt ynglŷn â chydweithio. Bydd ysgolion yn awyddus i gael cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'u buddiannau presennol neu eu buddiannau yn y dyfodol e.e. pen-blwydd pwysig, prosiect i wella sgiliau disgybl penodol.
- Staff arall i fynd atynt yn yr ysgol:
  Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth Cyfnod Allweddol
  Cydlynydd Mwy Abl a Thalentog Ysgol
  Cydlynydd Bagloriaeth Cymru
  Cydlynydd yr Arts Award
  Cydlynydd Profiad Gwaith, Cydlynydd Dysgu Cysylltiedig â Gwaith neu Gydlynydd Menter
  Cydlynydd Llais y Disgybl neu Gyngor Ieuenctid
  Cydlynydd Dug Caeredin
  Cydlynydd Cynhwysiad, Cydlynydd Cymorth ac Arweiniad
  Cydlynydd Gwasanaethau Estynedig, Cymuned neu Allgymorth

...

What else should we consider?

- Schools will need time to make arrangements so start conversations sooner rather than later
- Primary schools often find it easier to come out of school for the day than secondary schools, but staff will need to accompany the children so they might be more keen if you can accommodate a whole class
- Job titles, particularly in secondary schools, vary so look at their website or call the school or college reception to find out the best person to speak to
- For guidance on ensuring your children and young people stay safe whilst they are with you refer to your museum's safeguarding policy. See here for examples and advice: Arts Council Wales and Museum Wales

Try getting in touch with:

Youth organisations

- Youth forums across Wales represent the voice of children and young people at a local level
- Local Authority Youth Services work with young people and often have regular groups that may be available after school and are looking for projects
- Urdd Gobaith Cymru is a movement with over 50,000 members across Wales. Its 16 development officers develop a full programme of activities that gives children and young people a chance to learn and socialise through the medium of Welsh. For more information, visit: Urdd
- UK Youth (regional and national Youth Associations)
- British Youth Council

Uniformed groups

Girl Guides
Scouts
Sea Cadets
RAF Air Cadets
Army Cadets

Youth organisations

Duke of Edinburgh's Award
University of the First Age

Volunteering

Volunteering Wales
vInspired

...

Beth arall ddylen ni ei ystyried?

- Bydd angen amser ar ysgolion i wneud trefniadau felly cychwynnwch sgwrsio gyda nhw am hyn gynted ag y gallwch
- Yn aml iawn mae ysgolion cynradd yn ei chael hi'n haws nag ysgolion uwchradd i ddod allan o'r ysgol am y diwrnod, ond bydd angen i staff fynd gyda'r plant felly efallai y byddent yn fwy awyddus os gallech gymryd dosbarth cyfan
- Mae teitlau swyddi'n amrywio, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, felly edrychwch ar eu gwefan neu ffoniwch dderbynfa'r ysgol neu'r coleg i ganfod enw'r bobl orau i siarad â nhw
- I gael arweiniad ar sicrhau bod eich plant a phobl ifanc yn aros yn ddiogel tra byddent gyda chi, cyfeiriwch at bolisi diogelu eich amgueddfa. Edrychwch yma i weld esiamplau a chyngor: Arts Council Wales ac Amgueddfa Cymru

Ceisiwch gysylltu gyda:

Sefydliadau ieuenctid

- Mae fforymau ieuenctid ledled Cymru'n cynrychioli llais plant a phobl ifanc ar lefel leol
- Mae Gwasanaethau Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn aml iawn mae ganddynt grwpiau rheolaidd a allai fod ar gael ar ôl yr ysgol ac rydym yn chwilio am brosiectau
- Mae Urdd Gobaith Cymru'n fudiad sydd â mwy na 50,000 o aelodau ledled Cymru. Mae ei 16 swyddog datblygu'n datblygu rhaglen lawn o weithgareddau sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Urdd
- Ieuenctid y DU (Cymdeithasau Ieuenctid rhanbarthol a chenedlaethol)
- Cyngor Ieuenctid Prydain

Grwpiau gyda gwisg arbennig

Girl Guides
Scouts
Sea Cadets
RAF Air Cadets
Army Cadets

Sefydliadau ieuenctid

Duke of Edinburgh's Award
University of the First Age

Gwirfoddoli

Gwirfoddoli Cymru
vInspired

Consider also:

- Faith groups
- Young people's support groups and children's charities e.g. young carers, disability groups
- Any other venues or organisations you know of where children and young people meet

Ystyriwch hefyd:

- Grwpiau ffydd
- Grwpiau sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifanc ac elusennau plant e.e. gofalwyr ifanc, grwpiau i rai sydd gydag anableddau
- Unrhyw lefydd neu sefydliadau eraill rydych chi'n gwybod amdanynt lle mae plant a phobl ifanc yn cwrdd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Schools, youth groups and other young people's organisations
Ysgolion, grwpiau ieuenctid a mudiadau eraill pobl ifanc

What is Takeover Day?

Takeover Day is an annual day on which museums, galleries, libraries, archives, arts and heritage organisations invite young people in and give them a meaningful role. Children are in charge, making decisions and participating fully in the life of the museum. Young people have a say and contribute to the work of the museum.

Kids in Museums supports heritage organisations to create exciting Takeover Day experiences and produces free resources and materials for the young people and museums who take part.

Who is Takeover Day for?

Takeover Day is for any child or young person, from toddlers to young adults. Partnerships can take place between any group of children or young people – school classes, youth clubs, Scouts, faith groups – and any kind of heritage attraction – museums, art galleries, castles, historic ships, archaeological sites. There's no limit on numbers – it can involve one child or 100.

What happens on Takeover Day?

The programme is entirely flexible and up to your young people, you and your partner museum.

In some museums children take over staff roles, everything from authorising staff holidays to checking pest traps for harmful insects. In others, young people lead guided tours for visitors and welcome people in the shop and reception. Children design and produce exhibit labels and visitor guides and are asked to come up with ideas for future exhibitions or activities.

For ideas and inspiration see the case studies on our website

Beth yw Diwrnod Meddiannu?

Mae Diwrnod Meddiannu'n ddiwrnod blynyddol pan fydd amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifau a sefydliadau celfyddydau a threftadaeth yn gwahodd pobl ifanc i mewn ac yn rhoi rôl ystyrlon iddynt. Y plant sy'n rheoli ac yn gwneud penderfyniadau ac maent yn cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr amgueddfa. Mae'r bobl ifanc yn cael llais ac yn cyfrannu at waith yr amgueddfa.

Mae Kids in Museums yn cefnogi sefydliadau treftadaeth i greu profiadau Diwrnod Meddiannu cyffrous, ac mae'n cynhyrchu deunyddiau ac adnoddau rhad ac am ddim i'r bobl ifanc ac i'r amgueddfeydd sy'n cymryd rhan.

I bwy mae Diwrnod Meddiannu?

Mae Diwrnod Meddiannu i unrhyw blentyn neu berson ifanc, o blant bach i oedolion ifanc. Gallwch greu partneriaethau rhwng unrhyw grŵp o blant neu bobl ifanc – dosbarthiadau ysgol, clybiau ieuenctid, Sgowtiaid, grwpiau crefyddol – ac unrhyw fath o atyniad ym maes treftadaeth – amgueddfeydd, orielau celf, cestyll, llongau hanesyddol, safleoedd archeolegol. Does dim cyfyngiad ar y niferoedd – gallai gynnwys un plentyn neu 100.

Beth sy'n digwydd ar Diwrnod Meddiannu?

Mae'r rhaglen yn hollol hyblyg ac mae'r dewis gan eich pobl ifanc, gennych chi a'r amgueddfa.

Mewn rhai amgueddfeydd mae'r plant yn cymryd rolau'r staff ac yn gwneud popeth o awdurdodi gwyliau staff i archwilio'r trapiau dal plâu i weld oes pryfaid peryglus ynddynt. Mewn amgueddfeydd eraill, mae pobl ifanc yn arwain ymwelwyr ar deithiau tywys ac yn croesawu pobl i'r siop a'r dderbynfa. Mae'r plant yn llunio a chynhyrchu labeli arddangos a chanllawiau i ymwelwyr a gofynnir iddynt feddwl am syniadau ar gyfer gweithgareddau neu arddangosfeydd y dyfodol.

I gael syniadau ac ysbrydoliaeth gwelwch yr astudiaethau achos ar ein gwefan

...

Why get involved?

- It's free, fun and will give your young people a completely fresh perspective on museums and cultural venues.
- Each young person taking part will get a free Kids in Museums Takeover Day pack, including a certificate.
- It boosts children's confidence and gives them a sense of achievement, knowing their opinion is valued and that they are making a worthwhile contribution.
- Young people are given real responsibilities and problems to solve, helping equip them for working life.
- It builds a positive relationship between you and your local museum, opening up new possibilities for working together.
- It can be linked to and support other ongoing projects, such as First World War Centenary.

How can we take part?

Find a partner local museum, gallery or heritage site to work with. If they don't know about Takeover Day already then direct them to our website.

Start the conversation about what you both want to get out of the experience and make a plan for the day. Look at the Kids in Museums website for inspiration.

Have fun on your Takeover Day and remember to celebrate and share. Look at the resources to support you to do so – from press tips to posters.

Spread the news and let Kids in Museums know about what your young people did. Encourage your young people to blog, Facebook and report on their day.

Don't let it stop there. Keep talking to your partner museum about how the young people can continue to be involved.

Pam ddylwn i gyfranogi?

- Mae'n hwyl, mae'n rhad ac am ddim, a bydd yn rhoi golwg hollol ffres i bobl ifanc ar amgueddfeydd a safleoedd diwylliannol.
- Bydd pob person ifanc sy'n cymryd rhan yn cael pecyn Diwrnod Meddiannu Kids in Museums, yn cynnwys tystysgrif.
- Mae'n rhoi hwb i hyder y plant ac yn rhoi teimlad o gyflawni rhywbeth iddynt, bod eu barn yn werthfawr, a'u bod yn gwneud cyfraniad sy'n werth ei gwneud.
- Mae pobl ifanc yn cael cyfrifoldebau go iawn a phroblemau i'w datrys a bydd hyn yn helpu i roi'r sgiliau cywir iddynt ar gyfer eu gyrfa waith.
- Mae'n adeiladu perthynas bositif rhyngoch chi a'ch amgueddfa leol, yn agor posibiliadau newydd i gydweithio.
- Gellir cysylltu'r diwrnod yma â phrosiectau eraill, a chefnogi prosiectau eraill, megis Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Sut allwn ni gymryd rhan?

Creu partneriaeth gydag amgueddfa, oriel neu safle treftadaeth yn lleol er mwyn cydweithio â nhw. Os nad ydynt yn gwybod am y Diwrnod Meddiannu yn barod, yna cyfeiriwch nhw at ein gwefan.

Cychwyn sgwrs am yr hyn y mae'r ddau ohonoch eisiau ei gael o'r profiad a llunio cynllun ar gyfer y diwrnod. Edrychwch ar wefan Kids in Museums i gael ysbrydoliaeth.

Mwynhewch eich Diwrnod Meddiannu a chofiwch ddathlu a rhannu. Edrychwch ar yr adnoddau i'ch cefnogi i wneud hynny – o awgrymiadau am y wasg i bosteri.

Dywedwch wrth bobl a gadewch i Kids in Museums wybod beth wnaeth eich pobl ifanc chi. Anogwch eich pobl ifanc i wneud blog, i roi gwybodaeth ar Facebook ac i roi adroddiad am eu diwrnod.

Peidiwch stopio. Daliwch mlaen i siarad â'ch amgueddfa am ffyrdd y gall y bobl ifanc barhau i gymryd rhan.

...

Children say:

'The best bit was when we went and redesigned the museum because we could express all of our ideas. It was the best thing I have ever done.'

'This once in a lifetime opportunity really boosted my confidence in many things such as being able to stand up in front of lots of people and act, sing, dance, the list goes on forever.'

'This wonderful experience has changed everyone who took part in it such as people speaking up more in class and getting more involved in things. That day was probably one of the best days of my life (so far anyhow). That day changed my personality.'

Meddai'r plant:

'Y darn gorau oedd pan aethom ati i ail lunio'r amgueddfa oherwydd cawsom fynegi ein syniadau i gyd. Dyma'r peth gorau dw i wedi'i wneud erioed.'

'Mae'r cyfle unwaith mewn bywyd yma wedi hybu fy hyder yn fawr mewn llawer o bethau. Gallaf sefyll o flaen llwyth o bobl ac actio, canu, dawnsio, mae'r rhestr yn ddiddiwedd.'

'Mae'r profiad rhagorol yma wedi newid pawb a gymerodd ran, er enghraifft mae pobl yn dweud eu barn yn well yn y dosbarth ac yn cyfranogi mewn pethau'n well. Y diwrnod hwnnw oedd un o'r gorau yn fy mywyd mae'n debyg (hyd yn hyn beth bynnag). Newidiodd fy mhersonoliaeth y diwrnod hwnnw.'

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

How can we welcome visitors if our museum is closed?
Sut allwn ni groesawu ymwelwyr pan fydd ein hamgueddfa ar gau?

All museums have times when they are closed to the public, either on a particular day of the week, for the winter season, during a refurbishment or simply at night. However it doesn't have to mean that your visitors miss out. It's a great opportunity to do things a bit differently and invite in new people – perfect for Takeover Day!

Mae pob amgueddfa yn gorfod cau i'r cyhoedd ar adegau penodol, naill ai ar ddiwrnod penodol o'r wythnos, ar gyfer tymor y gaeaf, yn ystod gwaith i ailwampio'r safle neu yn y nos. Fodd bynnag, nid yw'n golygu bod rhaid i'ch ymwelwyr golli cyfleoedd. Mae'n gyfle gwych i wneud pethau ychydig yn wahanol i'r arfer a gwahodd pobl newydd atoch – perffaith ar gyfer Diwrnod Meddiannu!

Why should you go for it?

- You can offer visitors a different and often enhanced experience, looking at different aspects of the collection or by creating atmosphere
- If you're closed for a while it will remind people that you're still there
- You will have more space to do your activities in
- It's an opportunity to work with new audiences as it will appeal to visitors who may feel more comfortable having the place to themselves

Pam ddylech chi fynd amdani?

- Gallwch gynnig profiad gwahanol sydd yn aml yn well i ymwelwyr, yn edrych ar agweddau gwahanol ar y casgliad neu drwy greu awyrgylch
- Os ydych ar gau am gyfnod, bydd yn ffordd o atgoffa pobl eich bod chi yno o hyd
- Bydd gennych fwy o le i gynnal eich gweithgareddau
- Mae'n gyfle i weithio gyda chynulleidfaoedd newydd, gan y bydd yn apelio at ymwelwyr a allai deimlo'n fwy cyfforddus yn cael y lle iddyn nhw eu hunain

What can you do on Takeover Day if your museum is closed?

- Have the group make a video guide to the building or audio tour
- Let them take inspiration from the collection to create a performance, projections or installations to go in the windows or on the outside of the building
- Organise object handling sessions, behind the scenes tours, special talks, storytelling
- Invite the group to help with conservation work or preparing a space for an event or exhibition
- Have the group research and script new interpretation e.g. for a mobile phone tour
- Take some of your collection out of the museum and into a community space
- Involve the group in photo shoots for publicity and interpretation purposes
- Hold a youth panel meeting
- Get the group to help you organise a special event, such as a music recital or a film festival
- Hold a sleepover

Beth allwch chi wneud ar Diwrnod Meddiannu os yw eich amgueddfa ar gau?

- Gofyn i'r grŵp wneud taith fideo neu glywedol ar gyfer yr adeilad
- Gadael iddynt gael eu hysbrydoli gan y casgliad i greu perfformiadau, tafluniadau neu waith gosod i fynd yn y ffenestri neu ar y tu allan i'r adeilad
- Trefnu sesiynau trin a thrafod gwrthrychau, teithiau y tu ôl i'r llenni, sgyrsiau arbennig, adrodd straeon
- Gwahodd y grŵp i gynorthwyo gyda gwaith cadwraeth neu i baratoi man ar gyfer digwyddiad neu arddangosfa
- Gofyn i'r grŵp ymchwilio i ddehongliadau newydd ac ysgrifennu sgript ar eu cyfer, e.e. ar gyfer taith ffôn symudol
- Mynd â rhywfaint o'ch casgliad allan o'r amgueddfa ac i fan yn y gymuned
- Cynnwys y grŵp mewn sesiwn tynnu lluniau at ddibenion cyhoeddusrwydd a dehongli
- Cynnal cyfarfod panel ieuenctid
- Gofyn i'r grŵp eich cynorthwyo i drefnu digwyddiad arbennig, fel perfformiad cerddorol neu wŷl ffilmiau
- Cynnal noson i bobl gael cysgu dros nos yn yr amgueddfa

...

Things to think about to help your event run smoothly

Internal communication – talk to colleagues to get their support, listen to concerns and ensure that your event doesn't clash with important maintenance work etc.

Supervision – it's best to work with a small, established group with leaders and supervisors in place e.g. a school class or a uniformed group like Brownies

Safety and security – review your first aid and evacuation processes, consider which staff will be available, think about how the group will gain access when they arrive

Facilities – the group will need access to the toilets and you may need to consider lunch and refreshment arrangements

Pethau i feddwl amdano i gynorthwyo eich digwyddiad redeg yn esmwyth

Cyfathrebu mewnol – siaradwch â chydweithwyr i gael eu cefnogaeth, gwrando ar bryderon a sicrhau nad yw eich digwyddiad yn gwrthdaro â gwaith cynnal a chadw pwysig ac ati

Goruchwyliaeth – mae'n well gweithio gyda grŵp bach sydd eisoes wedi'i sefydlu ac sydd eisoes ag arweinwyr a goruchwylwyr, e.e. dosbarth o ddisgyblion neu grŵp fel y Brownis

Diogelwch – adolygwch eich prosesau cymorth cyntaf a phrosesau ymgilio. Ystyriwch ba staff fydd ar gael a meddyliwch sut bydd y grŵp yn cael mynediad i'r amgueddfa pan fyddant yn cyrraedd

Cyfleusterau – bydd angen i'r grŵp gael mynediad i'r toiledau a bydd angen i chi ystyried trefniadau cinio a lluniaeth

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

How can we involve young people with heritage outdoors?
Sut allwn ni gynnwys pobl ifanc mewn treftadaeth awyr agored?

If you're a garden, country park, ruin, archaeological site, heritage farm, industrial museum or have outdoor collections, you can still involve young people and children. Using all of your space means you can offer children a variety of experiences and get their perspective on different areas of your site. Takeover Day is an excellent opportunity to work innovatively to excite and inspire children in the heritage around them.

Os ydych yn ardd, parc gwledig, adfail, safle archeolegol, fferm treftadaeth, amgueddfa ddiwydiannol neu os oes gennych gasgliadau yn yr awyr agored, byddwch yn dal i allu cynnig lle i bobl ifanc a phlant yn eich gwaith. Trwy ddefnyddio eich gofod i gyd gallwch gynnig amrywiaeth o brofiadau i blant a chanfod eu safbwynt hwy ar wahanol rannau o'ch safle. Mae Diwrnod Meddiannu yn gyfle gwych i weithio'n arloesol i gyffroi ac ysbrydoli plant yn y dreftadaeth o'u hamgylch.

What kind of things can we do?

Young people can run an event or activity for visitors

- Orienteering trails and geocaching
- A 'dig'
- Story-telling, guided tours and performances
- Nature activities like building a wormery or habitat hotel

Ask them to design new interpretation

- A film about the landscape
- An audio tour for visually impaired visitors
- Trails, leaflets and signage
- Pop-up exhibitions
- Art installations

Involve them in conservation and maintenance

- Cleaning artefacts
- Documenting restoration works
- Checking the state of the built environment

Consult them on a specific issue or space

- Planning for a new play area
- Creating a visitor orientation guide
- Designing an events programme for peers

Want more inspiration of things to do – outdoors and indoors? Take a look at our case studies

Pa fath o bethau allwn wneud?

Gall bobl ifanc gynnal digwyddiad neu weithgaredd i ymwelwyr

- Llwybrau cyfeiriannu a gweithgareddau daeargelc
- Cloddio
- Adrodd stori, teithiau tywys a pherfformiadau
- Gweithgareddau natur megis adeiladu abwydfa neu westy cynefin

Gofynnwch iddynt gynllunio eitemau dehongli newydd

- Ffilm am y tirlun
- Taith glywedol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg
- Llwybrau, taflenni gwybodaeth ac arwyddion
- Fflach arddangosfa dros-dro
- Gosodiadau celf

Eu cynnwys mewn gwaith cadwraeth a chynnal

- Glanhau arteffactau
- Dogfennu gwaith adfer
- Gwirio cyflwr yr amgylchedd adeiledig

Ymgynghori â nhw ar fater neu ofod penodol

- Cynllunio ar gyfer lle chwarae newydd
- Creu canllaw canfod lleoliadau i ymwelwyr
- Cynllunio rhaglen ddigwyddiadau i gyfoedion

Hoffech chi fwy o ysbrydoliaeth am bethau i'w gwneud – dan do ac yn yr awyr agored? Cymerwch gipolwg ar ein hastudiaethau achos

...

How to help your event run smoothly

Prepare your participants

- Advise them to bring suitable clothes and footwear – layers are good, as well as waterproofs
- If writing to parents be clear that the event will be conducted outdoors

Prepare yourselves

- Provide clipboards and pens if writing or drawing is required
- Laminate materials
- Ensure there is a storage area for belongings
- Check the weather forecast and make sure you have a plan B for very wet weather!

Plan your event

- Schedule regular breaks, working outdoors is more tiring than indoors
- Provide somewhere sheltered and indoors for lunch if you can, especially if it's cold or if your children are young – if this isn't possible, have a half-day event
- Offer hot squash
- Make sure the space you plan to use is accessible to all, whatever the weather
- Allow extra time for moving around the site and expect distractions

Consider the comfort and safety of all involved

- Ensure that you are never too far from adequate toilets
- Have a higher ratio child to adult supervision when outdoors and encourage group leaders to visit the site beforehand
- Be aware of the public, any traffic or moving vehicles, bugs and animals
- Look over the area in advance for slip and trip hazards

More ideas...

- Find out about the work of the Kids' Council at the National Trust
- Support with organising a community archaeology project
- Council for Learning Outside the Classroom
- Institute for Outdoor Learning

Sut i helpu eich digwyddiad i redeg yn esmwyth

Paratoi eich cyfranogwyr

- Cynghorwch nhw i ddod â dillad ac esgidiau addas – mae haenau'n dda yn ogystal â dillad glaw
- Os ydych yn ysgrifennu at rieni, esboniwch yn glir bod y digwyddiad yn un awyr agored

Paratowch eich hun

- Darparwch glipfyrddau a beiros os oes angen ysgrifennu neu dynnu llun
- Lamineiddiwch y deunyddiau
- Sicrhewch bod lle storio ar gyfer eiddo
- Gwiriwch ragolygon y tywydd a sicrhewch fod cynllun wrth gefn gennych ar gyfer tywydd gwlyb iawn!

Cynlluniwch eich digwyddiad

- Gwnewch yn siŵr fod egwyliau rheolaidd, mae gweithio yn yr awyr agored yn fwy blinedig na gweithio dan do
- Darparwch rywle dan do ac wedi ei gysgodi i ginio os gallwch, yn enwedig os yw hi'n oer neu os yw eich plant yn ifanc – os nad yw hyn yn bosibl, gwnewch y digwyddiad yn un hanner diwrnod
- Cynigiwch sgwash poeth
- Gwnewch yn siwr fod y gofod y bwriadwch ei ddefnyddio'n hygyrch i bawb, beth bynnag fo'r tywydd
- Gadewch amser ychwanegol i symud o amgylch y safle a disgwyliwch i bethau dynnu sylw'r plant

Ystyriwch gysur a diogelwch bawb sy'n cymryd rhan

- Gwnewch yn siŵr nad ydych fyth ymhell o doiledau digonol
- Sicrhewch fod gennych gymhareb uwch o oedolion i blant pan fyddwch yn yr awyr agored ac anogwch arweinwyr y grŵp i ymweld â'r safle o flaen llaw
- Byddwch yn ymwybodol o'r cyhoedd, unrhyw draffig neu gerbydau'n symud, trychfilod ac anifeiliaid
- Chwiliwch yr ardal o flaen llaw i ganfod unrhyw beryglon llithro a baglu.

Rhagor o syniadau...

- Dysgwch fwy am waith Cyngor y Plant yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cefnogwch eu gwaith drwy drefnu prosiect archaeoleg cymunedol
- Council for Learning Outside the Classroom
- Institute for Outdoor Learning

How can Takeover Day activities be used for Arts Award?

Sut allwn ni ddefnyddio gweithgareddau'r Diwrnod Meddiannu ar gyfer yr Arts Award?

Takeover Day is an annual day when young people and children nationwide are given powerful, meaningful, decision-making roles within museums, galleries, archives, arts and heritage sites.

Mae **Diwrnod Meddiannu'n** ddiwrnod blynyddol pan fydd pobl ifanc a phlant drwy'r wlad i gyd yn derbyn rolau pwerus, ystyrlon sy'n gadael iddynt wneud penderfyniadau, mewn amgueddfeydd, orielau, archifau a safleoedd celfyddydau a threftadaeth.

Arts Award is a national qualification that supports children and young people aged up to 25 to connect with and take part in the arts world. Five levels are available; Arts Award DISCOVER and Arts Award EXPLORE are designed for ages 5 and upwards, and BRONZE, SILVER and GOLD are open to age 11 and above. GOLD Arts Award carries 35 UCAS points.

Mae'r Arts Award yn gymhwyster cenedlaethol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc hyd at 25 oed i gysylltu â byd y celfyddydau a chymryd rhan ynddo. Mae pum lefel ar gael; mae Arts Award DARGANFOD ac Arts Award ARCHWILIO wedi eu llunio i unigolion pump oed ac yn hŷn ac mae'r EFYDD, ARIAN ac AUR yn agored i bobl 11 oed+. Mae'r Dyfarniad Arts Award AUR yn cario 35 pwynt UCAS.

Why not link your Takeover Day activities with Arts Award and find new ways to put young people at the heart of your work? Takeover Day activities can fit with all Arts Award levels, from discovering art all around you at DISCOVER to working alongside a curator or installing an exhibition for GOLD.

Beth am gysylltu eich gweithgareddau Diwrnod Meddiannu gyda'r Arts Award a chanfod ffyrdd newydd o roi pobl ifanc wrth galon eich gwaith? Gall gweithgareddau'r Diwrnod Meddiannu gyfateb gyda holl lefelau'r Arts Award, o ganfod celfyddyd o'ch cwmpas gyda'r dyfarniad DARGANFOD i weithio ochr yn ochr â churadur neu osod arddangosfa ar gyfer y dyfarniad AUR.

Here are some ideas:

Takeover Day Activity
How it can be used with Arts Award

Exploring and researching your collection and writing creative exhibition labels
- ✓ Finding art forms all around you (DISCOVER)
- ✓ Taking part in arts activities (BRONZE)
- ✓ Arts research (SILVER and GOLD)

Taking over in roles including:
- Visitor Welcome Hosts
- Press and Marketing Officers
- Tour Guides
- Curators
- Performers
- Film-makers
- Designers
- Artists
- ✓ Exploring the work of arts and cultural organisations (EXPLORE)
- ✓ Arts activities (BRONZE and SILVER)
- ✓ Researching arts career paths (SILVER and GOLD)

...

Dyma rai syniadau:

Gweithgaredd Diwrnod Meddiannu
Sut y gellir ei ddefnyddio gyda'r Arts Award

Archwilio ac ymchwilio eich casgliad ac ysgrifennu labeli arddangosfa greadigol
- ✓ Canfod mathau o gelfyddyd o'ch cwmpas (DARGANFOD)
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (EFYDD)
- ✓ Gwaith ymchwil yn y celfyddydau (ARIAN AC AUR)

Meddiannu mewn rolau sy'n cynnwys:
- Cynlluniau Croesawu i Ymwelwyr
- Swyddogion Marchnata a'r Wasg
- Tywyswyr Teithiau
- Curaduron
- Perfformwyr
- Pobl gwneud ffilmiau
- Dylunwyr
- Artistiaid
- ✓ Archwilio gwaith sefydliadau celfyddyd a diwylliannol (ARCHWILIO)
- ✓ Gweithgareddau celfyddydau (EFYDD ac ARIAN)
- ✓ Ymchwilio llwybrau gyrfaoedd yn y celfyddydau (ARIAN ac AUR)

Leading tours
- ✓ Finding art forms all around you (DISCOVER)
- ✓ Finding out about the work of artists and arts organisations (EXPLORE)
- ✓ Developing art form understanding (BRONZE, SILVER or GOLD)

Designing visitor guides, audio tours and films – developing new skills in photography, filming, drawing and creative writing
- ✓ Taking part in arts activities (DISCOVER, EXPLORE, BRONZE or SILVER)
- ✓ Developing arts practice (GOLD)

Curating a pop-up exhibition or putting on a performance – developing creative skills including choosing objects, planning and managing how displays will look, describing and explaining displays to visitors
- ✓ Taking part in arts activities (DISCOVER, EXPLORE, BRONZE or SILVER)
- ✓ Developing arts practice (GOLD)
- ✓ Leading an arts project (SILVER or GOLD)

Designing and producing objects for your organisation to sell in the shop
- ✓ Taking part in arts activities (DISCOVER, EXPLORE, BRONZE or SILVER)
- ✓ Developing arts practice (GOLD)

Promoting, marketing and putting on a performance, exhibition or event
- ✓ Taking part in arts activities (DISCOVER, EXPLORE, BRONZE or SILVER)
- ✓ Developing arts practice (GOLD)
- ✓ Leading an arts project (SILVER or GOLD)

Creating young-person led workshops and activities for younger children and peers
- ✓ Taking part in arts activities (DISCOVER, EXPLORE, BRONZE or SILVER)
- ✓ Developing arts practice (GOLD)
- ✓ Leading an arts project (SILVER or GOLD)

Kids in Museums and Arts Award are working together to help more museums run Arts Award
Get in touch with the Takeover Day team at:
takeoverday@kidsinmuseums.org.uk

Arwain teithiau
- ✓ Canfod mathau o gelfyddyd o'ch cwmpas (DARGANFOD)
- ✓ Canfod rhagor am waith artistiaid a sefydliadau celfyddyd (ARCHWILIO)
- ✓ Datblygu dealltwriaeth o fathau o gelfyddyd (EFYDD, ARIAN neu AUR)

Cynllunio canllawiau i ymwelwyr, teithiau clywedol a ffilmiau – datblygu sgiliau newydd mewn ffotograffeg, ffilmio, tynnu llun ac ysgrifennu creadigol
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddyd (DARGANFOD, ARCHWILIO, EFYDD neu ARIAN)
- ✓ Datblygu arferion celfyddydau (AUR)

Curadu fflacharddangosfa neu roi perfformiad – datblygu sgiliau creadigol sy'n cynnwys dewis gwrthrychau, cynllunio a rheoli sut bydd arddangosfeydd yn edrych, disgrifio ac esbonio arddangosfeydd i ymwelwyr
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (DARGANFOD, ARCHWILIO, EFYDD neu ARIAN)
- ✓ Datblygu ymarfer celfyddydol (AUR)
- ✓ Arwain prosiect celfyddyddau (ARIAN neu AUR)

Cynllunio a chynhyrchu gwrthrychau i'ch sefydliad eu gwerthu yn y siop
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (DARGANFOD, ARCHWILIO, EFYDD neu ARIAN)
- ✓ Datblygu ymarfer celfyddydol (AUR)

Hybu, marchnata a rhoi perfformiad, arddangosfa neu ddigwyddiad
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (DARGANFOD, ARCHWILIO, EFYDD neu ARIAN)
- ✓ Datblygu ymarfer celfyddydol (AUR)
- ✓ Arwain prosiect celfyddyddau (ARIAN neu AUR)

Creu gweithdai a arweinir gan bobl ifanc a gweithgareddau i blant iau a chyfoedion
- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (DARGANFOD, ARCHWILIO, EFYDD neu ARIAN)
- ✓ Datblygu ymarfer celfyddydol (AUR)
- ✓ Arwain prosiect celfyddyddau (ARIAN neu AUR)

Mae Kids in Museums ac Arts Award yn cydweithio i helpu rhagor o amgueddfeydd i redeg Arts Award
Cysylltwch â'r tîm Diwrnod Meddiannu yn:
takeoverday@kidsinmuseums.org.uk

Arts Award is run by Trinity College London in association with Arts Council England working with 10 Bridge organisations.
Yn Lloegr, Coleg y Drindod Llundain sy'n rhedeg Arts Award mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Lloegr.

TRINITY COLLEGE LONDON

LOTTERY FUNDED

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

How to set up a youth panel – ten top tips
Sut i sefyldlu panel ieuenctid – y deg awgrym gorau

What does a youth panel do?

Everything! Here are some ideas...

Event programming
- Planning holiday workshops and large-scale events for families or young people
- Discussing ideas and planning activities with realistic budgets and limitations (with guidance from staff)

Marketing
- Working with designers to produce 'What's On' guides or family trails around your organisation
- Updating digital content on your organisation's social media platforms and website
- Working with marketing officers to create press releases

Interpreting the museum's collection
- Creating content for young people's audio tours
- Developing and running object handling sessions

Beth mae panel ieuenctid yn ei wneud?

Popeth! Dyma rai syniadau...

Llunio rhaglenni digwyddiadau
- Cynllunio gweithdai gwyliau a digwyddiadau ar raddfa fawr i deuluoedd neu bobl ifanc
- Trafod syniadau a chynllunio gweithgareddau gyda chyfyngiadau chyllidebau realistig (gydag arweiniad gan y staff)

Marchnata
- Gweithio gyda dylunwyr i gynhyrchu canllawiau 'Beth sy mlaen' neu deithiau i'r teulu o amgylch eich sefydliad
- Diweddaru'r cynnwys digidol ar wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad
- Gweithio gyda swyddogion marchnata i greu datganiadau i'r wasg

Esbonio casgliad yr amgueddfa
- Creu cynnwys i deithiau clywedol pobl ifanc
- Datblygu a rhedeg sesiynau trin gwrthrychau

Ten top tips

1 **Have a range of ages, backgrounds and abilities**. Aim for at least six members at each session.

2 **Create the right atmosphere**. Make sessions friendly. Encourage everyone to introduce themselves and to make new members feel welcome. Provide refreshments and reimburse travel expenses. Set an agenda for meetings and make one staff member responsible for this.

3 **Involve your panel in planning** for events, projects or exhibitions. This helps them to feel included from the start, and allows them see their ideas develop.

4 **Listen to everyone's opinion** so they know their voice is being heard. Ask each in turn. Members can vote to take forward the ideas they like best.

Y deg awgrym gorau

1 **Gwnewch yn siwr bod gennych bobl ifanc o amrywiol gefndiroedd, oed a gallu**. Anelwch i gael o leiaf chwe aelod ymhob sesiwn.

2 **Crëwch yr awyrgylch cywir**. Gwnewch y sesiynau'n gyfeillgar. Anogwch bawb i'w cyflwyno eu hunain ac estynnwch groeso cynnes i aelodau newydd. Darparwch adloniant a thalwch eu costau teithio yn ôl iddynt. Gosodwch agenda ar gyfer cyfarfodydd a gwnewch un aelod o staff yn gyfrifol am hyn.

3 **Cynhwyswch eich panel yn y gwaith o gynllunio** digwyddiadau, prosiectau neu arddangosiadau. Mae hyn yn eu helpu nhw i deimlo'n rhan o'r gwaith o'r dechrau, ac yn gadael iddynt weld eu syniadau'n datblygu.

4 **Gwrandewch ar farn pawb** fel eu bod yn gwybod bod rhywun yn gwrando ar eu llais Gofynnwch i bob un yn ei dro. Gall yr aelodau bleidleisio i gymryd eu hoff syniadau yn eu blaenau.

...

5 **Balance fun with getting things done**. It's good to be social, but it's important to also have real outcomes and achievements.

6 **Use the ideas** put forward and encourage everyone to work on them as a team. If ideas are unrealistic or too expensive, be honest and explain why. Give the panel the chance to make changes and suggestions on how to make their ideas work.

7 **Give unique opportunities** such as personalised organisation badges, or access to the staff room or behind the scenes. This helps youth panel members feel part of the team and gives them a safe place to chat with friends.

8 **Shout about it!** Let everyone in the organisation know about the panel and boast about what it does. Give other staff and volunteers a chance to get involved by asking them to give talks about their work to inspire the youth panel about the collection. This means everyone is backing you.

9 **Invite members of the group** to take on tasks which they are keen to learn about. This gives them personal motivation to attend and find out more about the organisation.

10 **Make the skills transferrable** by supporting young people to put their panel experience on their CVs, UCAS statements and job applications.

How to add value to the time young people spend in the youth panel

Arts Award gives young people distinguished recognition of their new skills

These schemes also recognise volunteer time:

- The Millennium Volunteer scheme
- vInspired Awards
- Time Credits

Where to recruit your youth panel

- Put up leaflets in the local community, at community events, in coffee shops and where young people go
- Get feedback from new recruits. Ask them where they found out about the panel and where they think you should advertise

...

5 **Ceisiwch gael cydbwysedd rhwng y gwaith o wneud pethau a chael hwyl**. Mae'n beth da bod yn gymdeithasol, ond mae'n bwysig cael canlyniadau a chyflawniadau go iawn.

6 **Defnyddiwch y syniadau** sy'n cael eu cyflwyno ac anogwch bawb i weithio arnynt fel tîm. Os yw syniadau'n afrealistig neu'n rhy ddrud, byddwch yn onest ac esboniwch pam. Rhowch gyfle i'r panel wneud newidiadau ac awgrymu ffyrdd o wneud i'w syniadau weithio.

7 **Rhowch gyfleoedd unigryw**, megis bathodynnau enw eich sefydliad, neu gadewch iddynt fynd i mewn i ystafell y staff neu'r mannau lle mae'r cyhoedd wedi'u gwahardd. Bydd hyn yn helpu'r aelodau i deimlo'n rhan o'r tîm ac yn rhoi lle diogel iddynt sgwrsio gyda ffrindiau.

8 **Gwaeddwch!** Gadewch i bawb yn y sefydliad wybod am y panel a broliwch am yr hyn mae'n ei wneud. Rhowch gyfle i staff a gwirfoddolwyr eraill gymryd rhan drwy ofyn iddynt siarad am eu gwaith i ysbrydoli'r panel ieuenctid am y casgliad. Mae hyn yn golygu bod pawb yn eich cefnogi.

9 **Gwahoddwch aelodau'r grŵp** i wneud tasgau y maent yn awyddus i ddysgu amdanynt. Mae hyn yn eu cymell i fynd a chanfod rhagor am y sefydliad.

10 **Gwnewch y sgiliau'n drosglwyddadwy** drwy gefnogi pobl ifanc i roi eu profiad ar banel ar eu CV, datganiadau UCAS a cheisiadau am swyddi.

Sut i ychwanegu gwerth i'r amser mae pobl ifanc yn ei dreulio ar y panel ieuenctid

Mae Arts Award yn rhoi cydnabyddiaeth o safon i bobl ifanc am eu sgiliau newydd

Mae'r cynlluniau yma hefyd yn cydnabod amser y gwirfoddolwyr:

- Cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm
- Gwobrwyon vInspired
- Credydau Amser

Ymhle i benodi eich panel ieuenctid

- Gosodwch daflenni yn y gymuned leol, mewn digwyddiadau cymunedol, mewn siopau coffi a lle mae pobl ifanc yn mynd
- Mynnwch adborth gan recriwtiaid newydd. Gofynnwch iddynt lle clywsent am y panel a lle maent yn credu y dylech hysbysebu

- Post opportunities on volunteer websites like vInspired and Volunteering Wales
- See Kids in Museums' fact sheet, Takeover Day and Communities First Clusters
- Ask another organisation if they have a youth panel – such as an arts organisation, theatre or local authority. See if you can link up with them
- Contact your local Communities First Cluster Manager who can put you in touch with young people
- Get advice from your local County Voluntary Council
- For more ideas see Kids in Museums' fact sheet So Where Do We Find Children and Young People?

What does it cost?

It doesn't have to cost a lot to run a youth panel – but remember you need to cover the cost of refreshments! Ask a local supermarket if they can provide these free of charge to support the young people in their community. They may be thrilled to help. The following organisations may also be able to offer funding and support:

- Welsh Museums Federation, a strategic body for museum professionals in Wales
- GwirVol encourages young people in Wales to get involved with their communities through volunteering
- Heritage Lottery Fund offer the following grants: Sharing Heritage and Young Roots. Potential applicants should contact the Heritage Lottery Fund in advance to discuss funding opportunities
- Federation of Museums and Art Galleries of Wales are offering Accreditation Support Grants, with priority being given to applications that address the Welsh Government's anti-poverty agenda
- If you work with young people from Communities First areas, contact the Communities First Cluster Manager to see how they might be able to support their participation. They may be able to help with covering travelling expenses
- For further funding ideas see Kids in Museums' Takeover Day webpage where there are tips on how to maximise resources

- Postiwch gyfleoedd ar wefannau gwirfoddoli megis vInspired a Gwirfoddoli Cymru
- Gallent eich rhoi mewn cysylltiad â phobl ifanc. Gwelwch daflen ffeithiau Kids in Museums, Diwrnod Meddiannu a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
- Gofynnwch i sefydliad arall os oes ganddynt banel ieuenctid – megis sefydliad celfyddydau, theatr neu awdurdod lleol. Gwelwch a allwch gysylltu â nhw
- Cysylltwch â'ch Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf lleol a fydd yn gallu trefu eich bod yn cysylltu â phobl ifanc
- Mynnwch gyngor gan eich Cyngor Gwirfoddoli Sirol lleol
- I gael rhagor o syniadau gwelwch daflen ffeithiau Kids in Museums Ymhle allwn ni ganfod Plant a Phobl Ifanc?

Beth mae'n gostio?

Does dim rhaid iddo gostio llawer i gynnal panel ieuenctid – ond cofiwch fod angen i chi dalu am gost y bwyd a'r ddiod! Gofynnwch i archfarchnad leol a allent ddarparu'r rhain yn rhad ac am ddim i gefnogi'r bobl ifanc yn eu cymunedau. Efallai hefyd y byddent wrth eu boddau'n helpu. Gallai'r sefydliadau a ganlyn gynnig arian a chefnogaeth hefyd:

- Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, corff strategol i bobl broffesiynol mewn amgueddfeydd yng Nghymru
- Mae GwirVol yn annog pobl ifanc yng Nghymru i gymryd rhan gyda'u cymunedau drwy wirfoddoli
- Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n cynnig y grantiau a ganlyn: Rhannu Treftadaeth a Gwreiddiau Ifanc. Dylai ymgeiswyr posibl gysylltu â Chronfa Dreftadaeth y Loteri o flaen llaw i drafod cyfleoedd ariannu
- Mae'r Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf yn cynnig Grantiau Cefnogi Achrediad, lle rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n ymdrin ag agenda gwrthdlodi Llywodraeth Cymru
- Os ydych yn gweithio gyda phobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, cysylltwch â Rheolwr y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i weld sut y gallent gefnogi eu cyfranogaeth. Efallai y byddent yn gallu helpu i dalu costau teithio
- I gael rhagor o syniadau am ariannu gwelwch dudalen gwe Diwrnod Meddiannu Kids in Museums lle mae awgrymiadau am ffyrdd o wneud y defnydd gorau o adnoddau

...

This resource was produced in consultation with the Nubies Young Volunteers at The Egypt Centre, Museum of Egyptian Antiquities.

What The Egypt Centre Nubies do

- Consultation, promotion and running of events
- Providing input into applications for funders, events and awards
- Involvement in public-facing events for The Egypt Centre through planning and running activities, performing Ancient Egypt themed shows and representing the organisation

What The Egypt Centre Nubies say...

'We've been trusted with objects which are thousands of years old. The museum trusts us to show people the galleries.' Isobel, 14

'I've built my confidence since being part of the group, and now I like talking to the visitors. I used to be shy because at first I didn't know much about mummification and the objects, but now I'm confident.' Maham, 13

'I really enjoy passing on what I know to younger kids in the group.' Dan, 15

'The stuff I've learnt here has been in a fun way. It means more to me than reading it in a book.' Lauren, 18

'Each Christmas we have a party and this is such a great way to celebrate the work we've done during the year. We chat and there's dancing in the museum.' Dan, 15

What The Egypt Centre staff say...

'The Nubies are an integral part of the museum because they bring new ideas, look at the collection from a different, exciting angle and their voice is heard by the visitors and the staff. Their involvement has increased their confidence and inspired other young visitors. The best moment was when one young man with autism who had been part of the group from the age of 10 was awarded 'Most Improved Pupil' and 'Pupil of the Year' by his school. The school acknowledged that his museum volunteering was the contributing factor.' Syd Howells, Volunteer Manager

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn mewn ymgynghoriad â gwirfoddolwyr ifanc y Niwbis yn y Ganolfan Eifftaidd yr Amgueddfa Hynafiaethau Eifftaidd.

Yr hyn mae Niwbis y Ganolfan Eifftaidd yn ei wneud

- Ymgynghori, hyrwyddo a chynnal digwyddiadau
- Rhoi mewnbwn i geisiadau ar gyfer arianwyr, digwyddiadau a dyfarniadau
- Cyfranogaeth mewn digwyddiadau sy'n wynebu'r cyhoedd i'r Ganolfan Eifftaidd drwy gynllunio a chynnal gweithgareddau, gwneud sioeau ar thema yr Hen Aifft a chynrychioli'r sefydliad

Yng ngeiriau Niwbis y Ganolfan Eifftaidd...

'Rydym yn edrych ar ôl gwrthrychau sydd filoedd o flynyddoedd oed. Mae'r amgueddfa'n ymddiried ynom i ddangos yr orielau i'r bobl.' Isobel, 14

'Rwyf wedi magu hyder ers i mi fod yn rhan o'r grŵp, a nawr rwy'n hoffi siarad gyda'r ymwelwyr. Roeddwn yn arfer bod yn swil oherwydd, i ddechrau, doeddwn i ddim yn gwybod llawer am fymïo a'r gwrthrychau, ond nawr rwy'n hyderus.' Maham, 13

'Rwy'n mwynhau pasio'r hyn rwy'n ei wybod i blant iau yn y grŵp.' Dan,15

'Rwyf wedi dysgu am y stwff yma mewn ffordd hwyliog. Mae hynny'n golygu mwy i mi na'i ddarllen mewn llyfr,' Lauren, 18

'Pob Nadolig rydym yn cael parti ac mae hon yn ffordd mor dda o ddathlu'r gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Rydym yn sgwrsio ac mae dawnsio yn yr amgueddfa.' Dan, 15

Yr hyn mae staff y Ganolfan Eifftaidd yn ei ddweud...

'Mae'r Niwbis yn rhan annatod o'r amgueddfa oherwydd maent yn dod â syniadau newydd, yn edrych ar y casgliad o safbwynt gwahanol, cyffrous ac mae'r ymwelwyr a'r staff yn gwrando ar eu lleisiau. Mae eu cyfranogaeth wedi cynyddu eu hyder ac wedi ysbrydoli ymwelwyr ifanc eraill. Yr amser gorau oedd pan oedd un dyn ifanc awtistig oedd wedi bod yn rhan o'r grŵp ers iddo fod yn 10 oed wedi ennill y wobr am y 'Disgybl sydd wedi Gwella Orau' a 'Disgybl y Flwyddyn' gan ei ysgol. Roedd yr ysgol yn cydnabod mai ei waith gwirfoddol mewn amgueddfa oedd y ffactor a gyfrannodd at hynny.' Syd Howells, Rheolwr Gwirfoddoli

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Takeover Day and Communities First Clusters
Y Diwrnod Meddiannu a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf

How to make a bigger impact by working together

Do you want your museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site to enable and empower young people, providing them with new opportunities and skills? If you work with your local Communities First Cluster on Takeover Day, you could make a bigger impact on young people.

Takeover Day and Communities First working together can:

- Better identify skills and experiences that would be of most use to young people
- Enable a museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site to access expertise and input from those beyond the sector, bolstering and embedding their work within their community
- Enable Communities First Clusters to draw upon the cultural sector for new experiences and opportunities in order to meet their targets for young people

Takeover Day and Communities First Clusters share many common aims. Together, they can more powerfully support young people.

What is Takeover Day?

Takeover Day is the day on which museums, cultural venues, arts organisations and heritage sites give young people a meaningful, powerful and decision-making role, putting them at the heart of their organisation.

Takeover Day is an annual event, but you can use Takeover principles and practice – empowering young people – anytime of year.

What is a Communities First Cluster?

Communities First Clusters are areas identified as being of deprivation and where new initiatives, partnerships and programmes are working together to tackle poverty. There are 52 Communities First Clusters, grouped under 19 Lead Delivery Bodies across Wales. Each Lead Delivery Body is responsible for delivering the programme within their area.

...

Sut i gael mwy o effaith drwy gydweithio

Ydych chi eisiau i'ch amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliad celfyddydau neu safle treftadaeth roi mwy o allu a grym i bobl ifanc, gan roi cyfleoedd a sgiliau newydd iddynt? Os ydych yn gweithio gyda'ch Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf lleol ar y Diwrnod Meddiannu, gallech gael mwy o effaith ar bobl ifanc.

Trwy gydweithio, gall y Diwrnod Meddiannu a Chymunedau yn Gyntaf:

- Ganfod yn well pa sgiliau a phrofiadau a fyddai fwyaf defnyddiol i bobl ifanc
- Galluogi amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliadau celfyddyd neu safle treftadaeth i gael gafael ar arbenigedd a chyfraniad gan y rheiny sydd y tu hwnt i'r sector, gan roi hwb i'w gwaith a'i gynnwys yn eu cymuned
- Galluogi Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i ddefnyddio'r sector diwylliannol i gael profiadau a chyfleoedd newydd i gwrdd â'u targedau i bobl ifanc

Mae'r Diwrnod Meddiannu a'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn rhannu llawer o amcanion cyffredin. Gyda'i gilydd gallent gefnogi pobl ifanc yn gryfach.

Beth yw'r Diwrnod Meddiannu?

Y Diwrnod Meddiannu yw'r diwrnod pan fydd amgueddfeydd, safleoedd diwylliannol, sefydliadau celfyddyd a safleoedd treftadaeth yn rhoi rôl gwneud penderfyniadau grymus ac ystyrlon i bobl ifanc gan eu rhoi yng nghalon eu sefydliad.

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n ddigwyddiad blynyddol, ond gallwch ddefnyddio egwyddorion ac arferion Meddiannu – grymuso pobl ifanc – ar unrhyw amser o'r flwyddyn.

Beth yw Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf?

Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ardaloedd sydd wedi eu pennu fel ardaloedd o amddifadedd a lle mae mentrau newydd, partneriaethau a rhaglenni newydd yn cydweithio i ymdrin â thlodi. Mae 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, wedi eu grwpio o dan 19 Corff Darparu Arweiniol ledled Cymru. Mae pob Corff Darparu Arweiniol yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglen yn eu hardaloedd eu hunain.

How can we get in touch with our local Communities First Cluster?

To find your local Clusters and Lead Delivery Body and for full contact details, see: Gov.Wales

What do Communities First Clusters aim to do?

Each of the 52 Communities First Clusters has a Cluster Delivery Plan which details the projects and activities that they run under the three strategic themes of the programme: Prosperous Communities, Learning Communities and Healthier Communities.

Some of the outcomes they seek are:

- Developing employment skills and finding work
- Developing IT skills and digital inclusion
- Encouraging people to be more involved in community activities
- Supporting young people to do well at school

How can Takeover Day and Communities First working together make a bigger difference?

Takeover Day empowers and enables young people, providing them with new opportunities, experiences and skills. Together with Communities First Clusters, Takeover Day can work towards supporting those young people who will benefit the most.

Young people could be better supported in:

Developing Employment Skills

- Work experience in a museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site, for example tour guide, front of house, pest controller or designing marketing for an event
- Discover long term volunteering opportunities within the museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site as a result of Takeover Day
- Gain an Arts Award. See the Takeover Day and Arts Award fact sheet
- Develop confidence that could boost employment prospects through being trusted and empowered with a responsible task for Takeover Day

"The best thing is knowing that we are being trusted by the museum. 'Cos I know the museum staff are happy that I will do a good job, it gives me confidence to do things which ...

Sut allwn ni gysylltu gyda'n Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf lleol?

I ganfod eich Clystyrau lleol a'ch Corff Darparu Arweiniol ac i gael manylion cysylltu llawn, gwelwch: Gov.Wales

Beth mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn bwriadu ei wneud?

Mae gan bob un o'r 52 Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf gynllun darparu'r Clwstwr sy'n rhoi manylion y prosiectau a'r gweithgareddau y maent yn eu rhedeg o dan dair thema strategol y rhaglen: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau mwy Iach.

Dyma rai o'r canlyniadau y maent yn chwilio amdanynt:

- Datblygu sgiliau cyflogaeth a chanfod gwaith
- Datblygu sgiliau TG a chynhwysiad digidol
- Annog pobl i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cymunedol
- Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol

Sut all y Diwrnod Meddiannu a Chymunedau yn Gyntaf gydweithio i wneud mwy o wahaniaeth?

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n rhoi grym a gallu i bobl ifanc, ynghyd â chyfleoedd, profiadau a sgiliau newydd. Trwy weithio gyda'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gall y Diwrnod Meddiannu weithio i gefnogi'r bobl ifanc hynny a fydd yn elwa fwyaf.

Gellir cefnogi pobl ifanc yn well i:

Ddatblygu Sgiliau Cyflogaeth

- Profiad gwaith mewn amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliad celfyddydau neu safle treftadaeth, er enghraifft arwain teithiau, gwaith ar y dderbynfa, rheoli plâu neu gynllunio marchnata ar gyfer digwyddiad
- Canfod cyfleoedd gwirfoddoli tymor hir yn yr amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliad celfyddydau neu safle treftadaeth o ganlyniad i'r Diwrnod Meddiannu
- Ennill Dyfarniad Arts Award. Gwelwch y Diwrnod Meddiannu a'r Arts Award taflen ffeithiau
- Datblygu hyder unigolion a fydd yn rhoi hwb iddynt i gael swydd drwy ddangos iddynt bod modd rhoi grym iddynt ac ymddiried ynddynt gyda thasg gyfrifol ar y Diwrnod Meddiannu

"Y peth gorau ydy gwybod bod yr amgueddfa'n ymddiried ynon ni. Oherwydd dw i'n gwybod bod staff yr amgueddfa'n hapus mod i'n mynd i wneud gwaith da, mae'n rhoi'r hyder i mi i wneud pethau dw i'n nerfus amdanynt neu'n eu hofni.

I am nervous or scared about. Then when I do the thing I realise I am quite good at it, and the museum is right to trust me." Connor, 15

Digital Inclusion

- Take part in Teen Twitter Takeover – the annual day on which museums, galleries, libraries, archives, arts organisations and heritage sites hand over their Twitter feed to young people. See Kids in Museums fact sheet, How can Teenagers take over our Twitter feed?

"It makes me feel empowered, it gives me confidence in what I'm doing here and makes me feel like part of the team!" Tom, 17

- Make an interpretative film for Takeover
- Contribute photos, film, images and work from Takeover Day to the online People's Collection Wales

Community Activities

- Plan and deliver a community event in the museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site for Takeover Day
- Develop an exhibition for Takeover Day and invite families back to see the work
- Be supported to explore and display their local heritage through Takeover

Doing Well at School

Museums, galleries, libraries, archives, arts organisations or heritage sites can further support this by:

- Contacting the local school in a Communities First Cluster and invite them to be part of Takeover Day, through providing new opportunities to the pupils
- Talking to the school about what skills the pupils would most benefit from developing. Design Takeover Day to meet this need
- Do Takeover at a Cadw site as a Welsh Baccalaureate Challenge

"After today I either want to work in a museum or be a builder."
"I enjoyed being creative and being able to show what I am capable of."
...

Yna pan fyddaf yn gwneud y peth, dw i'n sylweddoli fy mod yn gallu ei wneud yn weddol dda, ac mae'r amgueddfa'n gywir i ymddiried ynof." Connor, 15

Cynhwysiad Digidol

- Cymerwch ran yn y Diwrnod Meddiannu'r Twitter gan Bobl Ifanc – y diwrnod blynyddol pan fydd amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifau, sefydliadau celfyddydau a safleoedd treftadaeth yn rhoi eu porthiant Twitter i bobl ifanc. Gwelwch y daflen wybodaeth gan Kids in Museums, Sut all Bobl Ifanc feddiannu ein porthiant Twitter?

"Mae'n gwneud i mi deimlo'n bwerus, mae'n rhoi hyder i mi yn yr hyn dw i'n ei wneud yma ac mae'n gwneud i mi deimlo'n rhan o'r tîm!" Tom, 17

- Gwneud ffilm ddeongliadol ar gyfer Meddiannu
- Cyfrannu ffotograffau, ffilm, delweddau a gwaith o'r Diwrnod Meddiannu i Gasgliad Pobl Cymru ar-lein

Gweithgareddau Cymunedol

- Cynllunio a chynnal digwyddiad cymunedol yn yr amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliad celfyddydau neu safle treftadaeth ar gyfer y Diwrnod Meddiannu
- Datblygu arddangosfa ar gyfer y Diwrnod Meddiannu a gwahodd teuluoedd yn ôl i weld y gwaith
- Eu cefnogi i archwilio ac arddangos eu treftadaeth leol drwy Feddiannu

Llwyddo yn yr Ysgol

Gall amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifau, sefydliadau celfyddydau neu safleoedd treftadaeth gefnogi hyn ymhellach drwy:

- Gysylltu â'r ysgol leol mewn Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a'u gwahodd i fod yn rhan o'r Diwrnod Meddiannu, drwy roi cyfleoedd newydd i'r disgyblion
- Siarad gyda'r ysgol am ba sgiliau y byddai'r disgyblion yn elwa fwyaf o'u datblygu. Dylunio Diwrnod Meddiannu i gwrdd â'r angen yma
- Gwneud y Meddiannu ar safle Cadw fel Sialens Bagloriaeth Cymru

"Ar ôl heddiw dw i naill ai eisiau gweithio mewn amgueddfa neu fod yn adeiladwr."
"Mwynheais fod yn greadigol a dangos yr hyn dw i'n gallu ei wneud."

Takeover Day provides an excellent opportunity for participants to gain confidence, develop skills, represent key cultural services, take responsibility and make decisions. These experiences can help young people develop confidence and learn about opportunities that they might not be aware of, or might think are out of their reach.

Each Communities First Cluster has its own priorities. Get in touch with them directly to find out what they are, and discuss how Takeover Day can support their delivery. Tell the Cluster Team about what your museum, gallery, library, archive, arts organisation or heritage site is already doing, and start developing project and activity ideas together. Existing projects and activities could be further developed to bring additional outcomes for Takeover, Communities First and the young people involved. Above all, keep the conversation going, so that new project ideas can continue to flourish through the partnership.

To find out more about how culture can be used to help tackle poverty see Baroness Andrews' report Culture and Poverty – Harnessing the power of the arts, culture and heritage to promote social justice in Wales.

To understand more about the Pioneer Areas Outcomes Framework see PAOF

'Takeover Day provides a fantastic opportunity that empowers children and young people. It is a really powerful and positive experience that inspires and builds confidence, not only for the participants but for the organisation and staff involved as well. If poverty can be described as a lack of opportunity, then linking your Takeover Day with your local Communities First teams can help make a real difference for children, young people and families from disadvantaged areas.' Anthony Richards, Communities First Collaborative Working Connections Officer

'Museums have so much to offer to everyone in their locality and can provide great support to the work of the Communities First Clusters. The Kids in Museums' Takeover Day is a very imaginative and lively initiative that all museums (and other cultural venues) should use to engage and inspire young people as part of Communities First projects.' Steph Mastoris, Head of the National Waterfront Museum

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n rhoi cyfle gwych i gyfranogwyr fagu hyder, datblygu sgiliau, cynrychioli gwasanaethau diwylliannol allweddol, cymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau. Gall y profiadau yma helpu pobl ifanc i ddatblygu hyder a dysgu am gyfleoedd nad ydynt efallai'n ymwybodol ohonynt neu y maent yn teimlo eu bod y tu hwnt i'w gallu efallai.

Mae gan bob Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ei flaenoriaethau ei hun. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol i ganfod beth ydynt ac i drafod sut mae Diwrnod Meddiannu'n gallu cefnogi eu darpariaeth. Dywedwch wrth Dîm y Clwstwr am yr hyn y mae eich amgueddfa, oriel, llyfrgell, archif, sefydliad celfyddydau neu safle treftadaeth yn ei wneud yn barod, a dechrau datblygu syniadau am brosiectau a gweithgareddau gyda'ch gilydd. Gallech ddatblygu'r prosiectau a'r gweithgareddau sy'n bodoli'n barod ymhellach i ddod â chanlyniadau ychwanegol ar y Diwrnod Meddiannu, i Gymunedau yn Gyntaf ac i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Yn fwy na dim, cadwch y sgwrs i fynd, fel bod syniadau newydd prosiectau'n gallu parhau i flodeuo drwy'r bartneriaeth.

I ganfod rhagor am y ffordd y gallwn ddefnyddio diwylliant i helpu i ymdrin â thlodi gwelwch adroddiad y Farwnes Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi – Harneisio grym y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru

I ddeall rhagor am y Fframwaith Canlyniadau Ardaloedd Arloesol gwelwch PAOF

'Mae'r Diwrnod Meddiannu'n rhoi cyfle gwych sy'n grymuso plant a phobl ifanc. Mae'n brofiad pwerus a phositif iawn sy'n ysbrydoli ac yn ehangu hyder, nid yn unig i'r cyfranogwyr ond hefyd i'r sefydliad a'r staff sy'n cymryd rhan. Os oes modd disgrifio tlodi fel prinder cyfle, yna trwy gysylltu eich Diwrnod Meddiannu gyda'r timau Cymunedau yn Gyntaf lleol gallech helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig.' Anthony Richards, Swyddog Cysylltiadau Gweithio Cydweithredol Cymunedau yn Gyntaf

'Mae gan amgueddfeydd gymaint i'w gynnig i bawb yn eu hardal a gall ddarparu cefnogaeth wych i waith y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Diwrnod Meddiannu Kids in Museums yn fenter hynod fywiog a llawn dychymyg y dylai'r holl amgueddfeydd (a lleoliadau diwylliannol eraill) eu defnyddio i ymgysylltu ac ysbrydoli pobl ifanc yn rhan o'r prosiectau Cymunedau yn Gyntaf.' Steph Mastoris, Pennaeth y National Waterfront Museum

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

How can teenagers takeover our Twitter feed?
Sut all pobl ifanc yn eu harddgeau feddiannu ein porthiant Trydar?

Inviting young people to tweet on behalf of your organisation is a great way to involve them in your work. It's fun for you and your young people, entertaining for your audiences and lets people know that your museum, archive or heritage site welcomes and involves young people.

Mae gwahodd pobl ifanc i drydaru ar ran eich sefydliad yn ffordd wych o'u cynnwys yn eich gwaith. Mae'n hwyl i chi a'ch pobl ifanc, yn diddannu eich cynulleidfa ac yn gadael i bobl wybod bod eich amgueddfa, archifdy neu safle treftadaeth yn croesawu ac yn cynnwys pobl ifanc.

Use our TweetSheet to help guide responses. Its 140 boxes will keep you on message!

Want to know how to do it? Here's our step by step plan:

Before you begin

If possible, change your organisation's Twitter Bio to add the young person's name (first name only), age and a little about themselves. It's very quick and simple to change it back after the day. Include a link to: www. kidsinmuseums.org.uk/takeoverdaywales

Have a think what the young people can tweet about before the day. Here are some suggestions:

- Get your young people to interview each other and report the highlights
- Go 'behind the scenes'
- Get live responses and feedback from youth projects, workshops, events and exhibitions taking place on site
- Give young people a chance to promote their own personal work, such as their art or volunteering
- Write out some tweets on the TweetSheet before the day

During Twitter Takeover

Style tips for your teenage tweeters

- Make it short and snappy but try not to use text speak. It's a challenge with Twitter but avoid 'u' for you or 'r' for are
- Don't spam – sending the same thing out lots of times
- Too many emojicons are annoying but photos and videos are good – include at least one every two tweets

Defnyddiwch ein TaflenniTrydaru i'ch helpu i ateb. Bydd ei 140 o focsys yn eich cadw'n brysur!

Hoffech chi wybod sut i wneud hyn? Dyma ein cynllun cam wrth gam:

Cyn i chi gychwyn

Os yw'n bosibl, newidiwch Fanylion Personol eich sefydliad ar y Trydar i ychwanegu enw'r person ifanc (enw cyntaf yn unig), yr oedran ac ychydig amdanynt. Mae'n beth hawdd a chyflym i'w newid yn ôl ar ôl y diwrnod. Cynhwyswch ddolen: www. kidsinmuseums.org.uk/diwrnodmeddiannu

Meddyliwch beth y gallai'r bobl ifanc ei drydaru cyn y diwrnod. Dyma rai awgrymiadau:

- Gofynnwch i'ch pobl ifanc gyfweld ei gilydd a thrafod yr uchafbwyntiau
- Ewch 'tu ôl i'r llenni'
- Sicrhewch ymatebion ac adborth byw gan brosiectau ifanc, gweithdai, digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n digwydd ar y safle
- Rhowch gyfle i bobl ifanc hybu eu gwaith personol eu hunain, megis eu celfyddyd neu waith gwirfoddol
- Ysgrifennwch negeseuon trydar ar y TaflenniTrydaru cyn y diwrnod

Yn ystod y Meddiannu Trydar

Awgrymiadau am arddull i'ch trydarwyr ifanc

- Gwnewch y negeseuon yn fyr ac effeithiol ond peidiwch â defnyddio teipio testun. Mae'n sialens gyda'r Trydar ond peidiwch â rhoi 'gob' am 'gobeithio' neu 'u' am 'you' yn Saesneg
- Peidiwch â sbamio – sef anfon yr un peth allan dro ar ôl tro
- Mae gormod o emojicons yn gallu mynd dan groen pobl ond mae lluniau a fideos yn dda, efallai y gallech gynnwys o leiaf un i bob dwy neges drydaru

...

- Be chatty but don't say anything you wouldn't be happy for your gran or the curator to read
- If someone says something negative, don't respond
- If you're unsure of an answer, ask your mentor or just say 'I don't know but I'll see what I can find out'

Some practical things to remember

- Check links before sharing. This includes when retweeting
- Remember to use hashtags and tag other Twitter handles. It's the way people will be following the conversation nationally. Our hashtag is **#takeoverday**

Lost for words?

There might be a time when the Twitter hashtag goes quiet. Instead of waiting for the conversation to come to you, why not share and see if you get a response? Here are some ideas for your young people:

- Right now, we are _____ (share what you're doing)
- I am watching _____ (share what you are observing)
- Did you know _____ (share something you learned)
- Describe your Takeover Day experience – where have you taken over and what did you do? What were the highlights?
- Ask questions – Have you ever thought of a career in museums? Has anything surprised you about a museum?
- Check the hashtag to see what others are sharing
- Tweet to **@takeovermuseums** and **@kidsinmuseums**

Say Goodbye

Your young people can tell followers they're going to stop tweeting and thank them for listening. Remember to change back your Twitter profile and remove the young person's name.

- Sgwrsiwch ond peidiwch â dweud unrhyw beth y byddech yn anfodlon i'ch Nain neu ofalwr yr amgueddfa ei ddarllen
- Os bydd rhywun yn dweud rhywbeth negyddol, peidiwch ag ymateb
- Os ydych yn ansicr am ateb, gofynnwch i'ch mentor neu dywedwch 'dydw i ddim yn gwybod ond dw i am geisio dod o hyd i'r ateb'

Rhai pethau ymarferol I'w cofio

- Gwiriwch y dolenni cyn eu rhannu. Mae hynny'n cynnwys gwirio cyn aildrydaru
- Cofiwch ddefnyddio hashnodau a thagio enwau Trydarwyr eraill. Dyma'r ffordd y bydd pobl yn dilyn y sgwrs yn genedlaethol. Ein hashnod yw **#diwrnodmeddiannu**

Methu meddwl beth i'w ddweud?

Efallai weithiau y bydd hashnod Trydar yn mynd yn dawel. Yn lle aros i'r sgwrs ddod atoch chi, beth am rannu sylw a gweld a fyddwch yn cael ymateb? Dyma rai syniadau i'ch pobl ifanc:

- Ar hyn o bryd, rydym yn _____ (nodwch beth rydych yn ei wneud)
- Dw i'n gwylio _____ (nodwch beth rydych yn ei weld)
- Wyddoch chi _____ (nodwch beth rydych wedi ei ddysgu)
- Disgrifiwch ech profiad ar y Diwrnod Meddiannu – ymhle ydych chi wedi meddiannu a beth wnaethoch chi? Beth oedd y pethau gorau?
- Gofynnwch gwestiynau – Ydych chi wedi meddwl erioed am gael gyrfa mewn amgueddfa? Oes unrhyw beth wedi eich synnu am yr amgueddfa?
- Gwiriwch yr hashnod i weld beth mae pobl eraill yn ei ddweud
- Trydarwch i **@takeovermuseums** a **@kidsinmuseums**

Ffarweliwch

Gall eich pobl ifanc dweud wrth eu dilynwyr eu bod yn mynd i roi'r gorau i drydaru a diolch iddynt am wrando. Cofiwch newid eich proffil Trydaru yn ôl a thynnu enw'r person ifanc.

...

Beyond Twitter Takeover

- Make the day live on by your regular tweeters thanking the young people the following day and picking up on their best tweets
- Get the young people to blog about taking over your Twitter feed
- Ask young people to take over your Twitter feed on a regular basis – putting their voice at the heart of your organisation.

New to social media? Download a useful factsheet to help you get started.

Teenage tweeters say...

'The best thing about today is knowing that we are being trusted by the museum. Cos I know the museum staff are happy that I will do a good job it gives me confidence to do things which I am nervous or scared about. Then when I do the thing I realise I am quite good at it and the museum is right to trust me.'

'Thanks to @wrexhammuseums @kidsinmuseums @TeensInMuseums @childcomwales for letting us do stuff like this #takingover is #sweet!!!'

Museums say...

'@takeovermuseums Amazing work by all the #teensinmuseums today. Great to get a different perspective.'

'@kidsinmuseums Seeing how young people bring new ideas for museum working plus the use of #socialmedia to promote #Torfaen history :)'

Ar ôl Diwrnod Meddiannu'r Trydar

- Cadwch y diwrnod i fynd gyda'ch trydarwyr rheolaidd gan ddiolch i'r bobl ifanc y diwrnod wedyn a dangos eu negeseuon trydar gorau
- Gofynnwch i'r bobl ifanc flogio am feddiannu eich porthiant Trydaru
- Gofynnwch i'r bobl ifanc feddiannu eich porthiant Trydaru'n rheolaidd – gan roi eu llais gorau wrth galon eich sefydliad

Ydy'r cyfryngau cymdeithasol yn newydd i chi? Lawrlwythwch daflen ffeithiau ddefnyddiol i'ch helpu i gychwyn.

Yng ngeiriau'r trydarwyr ifanc...

'Y peth gorau am heddiw yw gwybod bod yr amgueddfa'n ymddiried ynom ni. Am fy mod i'n gwybod bod staff yr amgueddfa'n hapus y byddaf i'n gwneud gwaith da, mae'n rhoi hyder i mi wneud pethau rydw i'n nerfus amdanynt neu'n eu hofni. Yna pan fyddaf yn gwneud y pethau yma, dw i'n sylweddoli fy mod yn weddol dda, a bod yr amgueddfa'n gywir i ymddiried ynof i.'

'Diolch i @wrexhammuseums @kidsinmuseums @TeensInMuseums @childcomwales am adael i ni wneud pethau fel yma – mae #takingover yn beth #sweet!!!'

Yng ngeiriau'r amgueddfeydd...

'@takeovermuseums gwaith rhagorol gan bawb yn y #teensinmuseums heddiw. Gwych cael safbwynt gwahanol.'

'@kidsinmuseums Gweld sut mae pobl ifanc yn dod â syniadau newydd i weithio mewn amgueddfeydd a defnyddio #socialmedia i hybu hanes #Torfaen :)'

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

TweetSheet
TaflenniTrydaru

Tweet to **@takeovermuseums** and **@kidsinmuseums**
Trydarwch **@takeovermuseums** a **@kidsinmuseums**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Press tips
Awgrymiadau am y wasg

Great you're part of Takeover Day!
Mae'n wych eich bod yn cymryd rhan yn Diwrnod Meddiannu!

Here are some tips to help you make the most of the press opportunity

- **Small is often beautiful when it comes to getting press attention**. Think local and go for local papers, radio and other outlets. Local media won't only be more receptive but may also have a bigger local audience than a national media organisation.

- **Don't only think of media outlets to spread the word**. You can put up posters in a local supermarket. More people will read them than any newspaper. You can order free posters which you can customise yourself from: takeoverday@kidsinmuseums.org.uk

- **Send out a press release**, but make it as targeted and human as possible. You can download our template press release from our website.

- **Don't forget blogs**. Parent bloggers are very good at spreading the word about events. Perhaps the parents of some of the children taking part have blogs?

- **Cultivate good relationships with named people in the press and in social media**. It's far more effective to send an email to a named individual who you've had contact with than an info@ address. Get the name of someone and try and speak to them personally.

- **The best people to speak for you and give quotes are not staff but your users**. Get the young people taking part in Takeover Day to give you some quotes. They can do this in advance for your press release. Better still – they could write the press release!

Dyma rai syniadau i'ch helpu i gael cyhoeddusrwydd trwy ddefnyddio'r wasg a'r cyfryngau'n effeithiol

- **Yn aml iawn y pethau bach sy'n ennyn diddordeb wrth geisio tynnu sylw'r wasg**. Mae'n bwysig canolbwyntio ar y lleol, gan gysylltu â'r papurau a'r radio lleol, a mannau hysbysebu eraill yn yr ardal. Bydd y cyfryngau lleol yn fwy parod i wrando a hefyd mae'n bosibl y bydd mwy o bobl leol yn gwrando arnyn nhw na'r sefydliadau'r cyfryngau cenedlaethol.

- **Cofiwch fod ffyrdd eraill o ledaenu eich neges hefyd, fel rhoi posteri mewn archfarchnadoedd.** Bydd mwy o bobl yn darllen y posteri hyn nag sy'n darllen unrhyw bapur newydd. Cewch archebu posteri am ddim a'u haddasu eich hunain drwy gysylltu â: takeoverday@kidsinmuseums.org.uk

- **Dylech gyhoeddi datganiad i'r wasg**, ond gwnewch yn siwr ei fod mor berthnasol ac anffurfiol â phosibl. Gallwch lawrlwytho ein templed ar gyfer eich datganiad i'r wasg o ein gwefan.

- **Peidiwch ag anghofio'r blogiau**. Mae rhieni sy'n blogio yn dda iawn o ran lledaenu newyddion am ddigwyddiadau. Efallai bod blog gan rieni rhai o'r plant sy'n cymryd rhan?

- **Mae'n bwysig meithrin cysylltiadau ym myd y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol ag unigolion yr ydych yn eu hadnabod wrth eu henwau**. Mae'n llawer mwy effeithiol anfon e-bost at unigolion penodol yr ydych wedi cysylltu â nhw yn y gorffennol yn hytrach nag i gyfeiriad e-bost cyffredinol dienw. Gofynnwch am enw rhywun a cheisio siarad â nhw'n uniongyrchol.

- **Eich defnyddwyr, yn hytrach na'ch staff, yw'r bobl orau i siarad ar eich rhan ac i'w dyfynnu**. Gofynnwch i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn Diwrnod Meddiannu ddweud ambell beth am y dydd fel y gallwch eu dyfynnu. Gallent wneud hyn cyn ichi baratoi eich datganiad i'r wasg. Gwell fyth – rhowch y datganiad i'r wasg iddyn nhw ei ysgrifennu!

...

- **Use Twitter to spread the word**. It's very simple and effective. Let Kids in Museums know what you're doing by tweeting **@takeovermuseums** and we can RT.

- **Make sure you have all the necessary permissions** for taking photos of children and young people before the day. Take lots of photos. After the day, offer the best ones to the press.

- **Defnyddiwch Twitter i ledaenu eich neges**. Mae'n effeithiol ac yn syml iawn. Cewch drydar **@takeovermuseums** i nodi'r hyn rydych yn ei wneud, a gallwn ni ail-drydar eich neges.

- **Gwnewch yn siwr eich bod wedi cael pob caniatâd** y mae ei angen ar gyfer tynnu lluniau o blant a phobl ifanc cyn y diwrnod. Tynnwch lot o luniau, ac wedyn cynigiwch y gorau ohonynt i'r wasg.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Evaluation tips
Awgrymiadau am werthuso

Tips to help you review the day

- **Think about what you really want to know**. Don't try to cover every aspect of your Takeover Day. Narrow the focus down so you get the answers to two or three questions that matter most to you. Perhaps your Takeover Day has made colleagues think differently about young people? Or you have learnt how to make young people's events run more smoothly in future?

- **Pick who you ask**. Choose one or two groups who will give you the most useful feedback to your questions. It could be the children and young people, or accompanying teachers and group leaders, museum staff and volunteers, or visitors to your museum on Takeover Day.

- **Design your questions** around these evaluation aims and audiences. Make it as simple as possible for people to reply. Test out your questions on colleagues beforehand so you know that they work.

- **Decide when to collect feedback**. This will vary depending on who you are talking to and what you want to know. Finding out which activities have been most popular can be done on the day. Identifying changes in attitude needs more time. Consider starting your evaluation before Takeover Day itself, so you can track changes.

- **Decide how to collect feedback** and produce any materials. Try paper-based or online surveys, interviews and focus groups, mind-maps, a graffiti wall or 'washing line' of comments. Check what people are saying about your event on the internet and social media sites.

- **Collect the feedback, analyse it and do something with it!** Share successes with the media, senior colleagues and other stakeholders. Identify what could be improved and put plans in place to do so. Remember to let Kids in Museums know how you got on.

- **Keep the door open** to more feedback from all your groups. Welcome it when it arrives, however unexpected. Takeover Day is just the start. Carry on the conversation.

For more ideas about evaluation:
Wales.gov and search for Inspired Learning, and GEM
I gael rhagor o syniadau am werthuso:
Wales.gov a chwilio am Annog Dysgu, ac GEM

Awgrymiadau i'ch helpu i adolygu'r dydd

- **Ystyriwch beth yn union rydych eisiau ei wybod**. Mae'n amhosib cynnwys pob agwedd o'ch Diwrnod Meddiannu. Gwnewch y ffocws yn fwy cul fel eich bod yn cael ateb i ddau neu dri o'r cwestiynau sydd bwysicaf i chi. Efallai bod eich Diwrnod Meddiannu wedi gwneud i gydweithwyr feddwl yn wahanol am bobl ifanc? Neu efallai eich bod wedi dysgu sut i wneud i weithgareddau pobl ifanc redeg yn fwy esmwyth yn y dyfodol?

- **Dewiswch i bwy y dylech ofyn**. Dewiswch un neu ddau o grwpiau fydd yn rhoi'r atebion mwyaf defnyddiol i'ch cwestiynau. Efallai mai'r plant a'r bobl ifanc fyddai orau, neu'r athrawon ac arweinwyr grŵp oedd gyda nhw, staff yr amgueddfa a gwirfoddolwyr, neu ymwelwyr â'ch amgueddfa ar y Diwrnod Meddiannu.

- **Lluniwch eich cwestiynau** o amgylch y cynulleidfaoedd a'r amcanion gwerthuso yma. Gwnewch nhw mor syml ag sy'n bosibl i bobl eu hateb. Profwch eich cwestiynau ar gydweithwyr o flaen llaw i sicrhau eu bod yn gweithio.

- **Penderfynwch pryd i gasglu adborth**. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu gyda phwy yr ydych yn siarad a'r hyn rydych eisiau ei wybod. Gallwch ganfod pa weithgareddau sydd wedi bod fwyaf poblogaidd ar y diwrnod. Mae angen rhagor o amser i weld newidiadau mewn agwedd. Gallech ystyried cychwyn eich gwerthusiad cyn y Diwrnod Meddiannu ei hun, er mwyn i chi allu olrhain newidiadau.

- **Penderfynwch sut i gasglu'r adborth** a chynhyrchu unrhyw ddefnyddiau. Rhowch gynnig ar arolygon ar-lein neu ar bapur, cyfweliadau a grwpiau ffocws, mapiau meddwl, wal graffiti neu 'lein ddillad' o sylwadau. Edrychwch i weld beth mae pobl yn ei ddweud am eich gweithgareddau ar y we a gwefannau cyfryngau cymdeithasu.

- **Casglwch yr adborth, ei ddadansoddi a gwneud rhywbeth â fo!** Rhannwch lwyddiannau gyda'r cyfryngau, cydweithwyr uwch a rhanddeiliaid eraill. Edrychwch i weld beth allai gael ei wella a rhowch gynlluniau ar waith i wneud hynny. Cofiwch adael i Kids in Museums wybod sut aeth pethau.

- **Cadwch y drws yn agored** i gael rhagor o adborth gan eich grwpiau i gyd. Estynnwch groeso pan ddaw, dim ots pa mor annisgwyl ydyw. Mae Diwrnod Meddiannu yn ffordd o agor sgwrs – daliwch ymlaen â hi.